OFFERYNNAU STATUDOL CYMRU

WELSH STATUTORY INSTRUMENTS

2025 Rhif 897 (Cy. 157)

2025 No. 897 (W. 157)

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

Rheoliadau Cynllun Cymorth Ariannol Etholiadau Cymreig (Ymgeiswyr Anabl) 2025

The Welsh Elections Financial Assistance Scheme (Disabled Candidates) Regulations 2025

NODYN ESBONIADOL

(Nid yw'r nodyn hwn yn rhan o'r Rheoliadau)

Fel sy'n ofynnol gan adran 28(2) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024 (dsc 5) ("Deddf 2024"), mae'r Rheoliadau hyn yn darparu ar gyfer cynllun o gymorth ariannol i gynorthwyo ymgeiswyr anabl mewn etholiadau Cymreig i oresgyn rhwystrau rhag cymryd rhan yn yr etholiadau hynny sy'n gysylltiedig â'u hanabledd. Mae'r Rheoliadau'n gymwys i etholiadau Cymreig, sef etholiad ar gyfer aelodaeth o Senedd Cymru neu gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned yng Nghymru.

Ymgeisydd at ddibenion y Rheoliadau hyn yw person sy'n bwriadu dod yn ymgeisydd neu sy'n ymgeisydd sydd wedi ei enwebu'n ddilys. Caiff ymgeisydd o'r fath wneud cais am gymorth ariannol ar unrhyw adeg, ond ni thelir unrhyw gymorth ariannol tan ar ôl i ymgeisydd gael ei enwebu'n ddilys. Hefyd, ni fydd cymorth ariannol ond ar gael i dalu costau ychwanegol yr eir iddynt mewn cysylltiad ag anabledd ymgeisydd am gymorth neu addasiadau a ddefnyddir ar ôl iddo gael ei enwebu'n ddilys. Mae ymgeisydd wedi ei enwebu'n ddilys mewn etholiad pan fydd y swyddog canlyniadau'n derbyn ei enwebiad yn yr etholiad hwnnw.

EXPLANATORY NOTE

(This note is not part of the Regulations)

As required by section 28(2) of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024 (asc 5) ("the 2024 Act"), these Regulations provide for a scheme of financial assistance to help disabled candidates in Welsh elections to overcome barriers to their participation in those elections which are connected to their disability. The Regulations apply to Welsh elections, meaning an election for membership of Senedd Cymru or the council of a county or county borough or community in Wales.

A candidate for the purposes of these Regulations is a person who intends to become a candidate or is a validly nominated candidate. An application may be made for financial assistance by such a candidate at any time, but the payment of any financial assistance will only be made after a candidate has been validly nominated. Also, financial assistance will only be available to meet additional costs that are incurred in connection with a candidate's disability for support or adjustments used after they have been validly nominated. A candidate is validly nominated at an election when their nomination at that election is accepted by the returning officer.

Mae rheoliad 4 yn darparu ar gyfer penodi gweithredwr cynllun, a chaiff hynny fod yn ddarostyngedig i delerau ac amodau. Mae'r ddarpariaeth yn nodi gofynion ar gyfer y penodiad. Mae rheoliad 5 yn rhoi swyddogaethau i weithredwr y cynllun, a chaniateir dirprwyo'r swyddogaethau hynny i bersonau penodedig fel y nodir yn rheoliadau 6 a 7. Rhaid i weithredwr y cynllun lunio a chyhoeddi canllawiau ynghylch gweithredu'r cynllun fel y nodir yn rheoliad 8.

Regulation 4 provides for the appointment of a scheme operator, which may be subject to terms and conditions. The provision sets out requirements for the appointment. Regulation 5 confers functions on the scheme operator, and those functions may be delegated to specified persons as set out in regulations 6 and 7. The scheme operator must produce and publish guidance about the operation of the scheme as set out in regulation 8.

Mae rheoliad 9 yn nodi'r cymorth ariannol y mae rhaid i'r cynllun ei ddarparu, gan gynnwys costau cymorth neu addasiadau yr eir iddynt yn rhesymol sy'n ofynnol i alluogi ymgeisydd anabl i ymgyrchu ar sail gyfartal ag ymgeisydd nad yw'n anabl, yn ystod y cyfnod penodedig. Mae'r cyfnod penodedig hwnnw yn dechrau ar y dyddiad yr enwebir ymgeisydd yn ddilys mewn etholiad Cymreig ac yn dod i ben ar y diwrnod y cyhoeddir canlyniadau'r etholiad hwnnw.

Regulation 9 sets out the financial assistance the scheme must provide, including reasonably incurred costs of support or adjustments required to enable a disabled candidate to participate in campaigning on a level basis with a non-disabled candidate, during the specified period. That specified period begins on the date a candidate is validly nominated at a Welsh election and ends on the day the results of that election are declared.

Mae rheoliad 10 yn darparu amodau y mae rhaid i weithredwr y cynllun eu cynnwys fel rhan o'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y cynllun.

Regulation 10 provides conditions that the scheme operator must include as part of the eligibility criteria for the scheme.

Mae rheoliad 11 yn amlinellu'r prosesau gwneud cais ac asesu ar gyfer y cynllun cymorth ariannol, y mae rhaid manylu arnynt yn y canllawiau a gyhoeddir gan weithredwr y cynllun o dan reoliad 8.

Regulation 11 outlines the application and assessment processes for the financial assistance scheme, which must be detailed within the guidance published by the scheme operator under regulation 8.

Mae rheoliad 12 yn ei gwneud yn ofynnol i weithredwr y cynllun gymryd camau rhesymol i sicrhau y gwneir trefniadau i dalu i'r ymgeisydd y cymorth ariannol sydd wedi ei gymeradwyo, cyn gynted ag y bo'n ymarferol. Caniateir darparu cymorth ariannol drwy daliadau uniongyrchol i ffynhonnell y cymorth gofynnol neu'r addasiadau gofynnol, neu'n uniongyrchol i'r ymgeisydd. Pan wneir taliadau'n uniongyrchol i'r ymgeisydd, efallai y bydd yn ofynnol i'r ymgeisydd fodloni amodau penodedig cyn i'r taliad gael ei wneud.

Regulation 12 requires the scheme operator to take reasonable steps to ensure that arrangements are made to pay the approved financial assistance to the candidate, as soon as practicable. Financial assistance may be provided via direct payments to the source of the required support or adjustments, or directly to the candidate. Where payments are made directly to the candidate, the candidate may be required to fulfil specified conditions before the payment is made.

Mae rheoliad 13 yn amlinellu'r amgylchiadau a'r broses pan fydd gweithredwr y cynllun yn gofyn am ad-dalu taliad cymorth ariannol.

Regulation 13 outlines the circumstances and process when the scheme operator requests that a financial assistance payment is repaid.

Mae rheoliad 14 yn gwneud darpariaeth ar gyfer cadw cofnodion a chyfrifon gan weithredwr y cynllun, y caniateir i Weinidogion Cymru eu harolygu. Rhaid i weithredwr y cynllun hefyd gyhoeddi adroddiad ar weithrediad y cynllun cymorth ariannol, fel y darperir ar ei gyfer yn rheoliad 15, heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl etholiad. Rhaid i unrhyw wybodaeth a ddarperir i Weinidogion Cymru, neu a gynhwysir mewn adroddiad gan weithredwr y cynllun, fod yn ddienw ac ni chaiff gynnwys manylion y gellir adnabod ymgeisydd oddi wrthynt.

Regulation 14 makes provision for the keeping of records and accounts by the scheme operator, which may be inspected by the Welsh Ministers. The scheme operator must also publish a report on the operation of the financial assistance scheme, as provided for in regulation 15, no later than 6 months following an election. Any information provided to Welsh Ministers, or included in a report by the scheme operator, must be anonymised and must not include identifiable details of a candidate.

Mae rheoliadau 16 i 17 yn manylu ar y diwygiadau canlyniadol sy'n ofynnol i ddeddfwriaeth arall er mwyn rhoi effaith lawn i'r cynllun cymorth ariannol drwy sicrhau nad yw unrhyw dreuliau yr eir iddynt gan ymgeisydd, sy'n cael eu talu neu eu had-dalu o dan y cynllun cymorth ariannol a sefydlir yn unol â'r Rheoliadau hyn, yn cyfrif tuag at gyfyngiadau ar wariant etholiadol yr ymgeisydd mewn etholiadau Cymreig.

Ystyriwyd Cod Ymarfer Gweinidogion Cymru ar gynnal Asesiadau Effaith Rheoleiddiol mewn perthynas â'r Rheoliadau hyn. O ganlyniad, lluniwyd asesiad effaith rheoleiddiol o'r costau a'r manteision sy'n debygol o ddeillio o gydymffurfio â'r Rheoliadau hyn. Gellir cael copi oddi wrth: Llywodraeth Cymru, Parc Cathays, Caerdydd, CF10 3NQ ac mae wedi ei gyhoeddi ar www.llyw.cymru.

Regulations 16 to 17 detail the consequential amendments required to other legislation to give full effect to the financial assistance scheme by ensuring that any expenses incurred by a candidate, which are paid or reimbursed under the financial assistance scheme established in accordance with these Regulations, do not count towards the candidate's election expenditure limits in Welsh elections.

The Welsh Ministers' Code of Practice on the carrying out of Regulatory Impact Assessments was considered in relation to these Regulations. As a result, a regulatory impact assessment has been prepared as to the likely costs and benefits of complying with these Regulations. A copy can be obtained from Welsh Government, Cathays Park, Cardiff, CF10 3NQ and is published on www.gov.wales.

2025 Rhif 897 (Cy. 157)

CYNRYCHIOLAETH Y BOBL, CYMRU

Rheoliadau Cynllun Cymorth Ariannol Etholiadau Cymreig (Ymgeiswyr Anabl) 2025

Gwnaed	*16 Gorffennaf 2025*
Yn dod i rym	*21 Gorffennaf 2025*

Mae Gweinidogion Cymru, drwy arfer y pwerau a roddir gan adrannau 28(2), (3), (5), (6), (8) a (10) ac 71(1) a (2) o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024(**1**), yn gwneud y Rheoliadau a ganlyn.

Yn unol ag adran 28(4) o'r Ddeddf honno, mae Gweinidogion Cymru wedi ymgynghori â'r personau hynny yr oeddent yn ystyried eu bod yn briodol.

Yn unol ag adrannau 28(12) ac 71(4) o'r Ddeddf honno, gosodwyd drafft o'r Rheoliadau hyn gerbron Senedd Cymru, ac fe'i cymeradwywyd ganddi drwy benderfyniad.

RHAN 1

CYFFREDINOL

Enwi, dod i rym a chymhwyso

1.—(1) Enw'r Rheoliadau hyn yw Rheoliadau Cynllun Cymorth Ariannol Etholiadau Cymreig (Ymgeiswyr Anabl) 2025.

(2) Daw'r Rheoliadau hyn i rym ar 21 Gorffennaf 2025.

(**1**) 2024 dsc 5. Mae adran 28(13) yn diffinio "penodedig" ac "a bennir" i olygu wedi ei bennu mewn rheoliadau a wneir o dan adran 28.

2025 No. 897 (W. 157)

REPRESENTATION OF THE PEOPLE, WALES

The Welsh Elections Financial Assistance Scheme (Disabled Candidates) Regulations 2025

Made	*16 July 2025*
Coming into force	*21 July 2025*

The Welsh Ministers, in exercise of the powers conferred by sections 28(2), (3), (5), (6), (8) and (10) and 71(1) and (2) of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024(**1**), make the following Regulations.

In accordance with section 28(4) of that Act, the Welsh Ministers have consulted with such persons as they considered appropriate.

In accordance with sections 28(12) and 71(4) of that Act, a draft of these Regulations was laid before, and approved by a resolution of, Senedd Cymru.

PART 1

GENERAL

Title, coming into force and application

1.—(1) The title of these Regulations is the Welsh Elections Financial Assistance Scheme (Disabled Candidates) Regulations 2025.

(2) These Regulations come into force on 21 July 2025.

(**1**) 2024 asc 5. Section 28(13) defines "specified" to mean specified in regulations made under section 28.

(3) Mae'r Rheoliadau hyn yn gymwys i etholiadau Cymreig.

(4) Er bod y Rheoliadau hyn yn dod i rym o dan baragraff (2), nid ydynt yn cael effaith mewn perthynas ag etholiad Cymreig y cynhelir y pôl ar ei gyfer ar neu cyn 6 Mai 2026.

Dehongli

2.—(1) Yn y Rheoliadau hyn—

mae i "anabl" ("*disabled*") yr un ystyr ag yn adran 28(13) o Ddeddf 2024;

mae i "cymorth ariannol" ("*financial assistance*") yr un ystyr ag yn adran 31 o Ddeddf 2024;

ystyr "Deddf 2024" ("*the 2024 Act*") yw Deddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024;

ystyr "etholiad Cymreig" ("*Welsh election*") yw etholiad ar gyfer dychwelyd aelod o—

(a) Senedd Cymru;

(b) cyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru;

(c) cyngor cymuned yng Nghymru;

ystyr "Gorchymyn 2025" ("*the 2025 Order*") yw Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025(**1**);

ystyr "plaid wleidyddol gofrestredig" ("*registered political party*") yw plaid sydd wedi ei chofrestru o dan Ran 2 o Ddeddf Pleidiau Gwleidyddol, Etholiadau a Refferenda 2000(**2**);

ystyr "ymgeisydd" ("*candidate*") yw—

(a) mewn perthynas ag etholiad Senedd Cymru, person—

(i) sy'n bwriadu sefyll fel ymgeisydd unigol, neu sydd wedi ei enwebu'n ddilys fel ymgeisydd unigol, yn yr etholiad hwnnw, neu

(ii) sy'n bwriadu sefyll fel ymgeisydd rhestr plaid, neu sydd wedi ei enwebu'n ddilys fel ymgeisydd rhestr plaid, yn yr etholiad hwnnw;

(b) mewn perthynas ag etholiad ar gyfer aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol yng Nghymru, person sy'n bwriadu sefyll fel ymgeisydd, neu sydd wedi ei enwebu'n ddilys fel ymgeisydd, yn yr etholiad hwnnw;

(**1**) O.S. 2025/864 (Cy. 150).
(**2**) 2000 p. 41.

(3) These Regulations apply to Welsh elections.

(4) Despite the coming into force of these Regulations under paragraph (2), they do not have effect in relation to a Welsh election the poll for which is held on or before 6 May 2026.

Interpretation

2.—(1) In these Regulations—

"the 2024 Act" ("*Deddf 2024*") means the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024;

"the 2025 Order" ("*Gorchymyn 2025*") means the Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025(**1**);

"candidate" ("*ymgeisydd*") means—

(a) in relation to a Senedd Cymru election, a person who—

(i) intends to stand as an individual candidate, or who is validly nominated as an individual candidate, at that election, or

(ii) intends to stand as a party list candidate, or is validly nominated as a party list candidate, at that election;

(b) in relation to an election of members of a county or county borough council in Wales, a person who intends to stand as a candidate, or who is validly nominated as a candidate, at that election;

(c) in relation to an election of members of a community council in Wales, a person who intends to stand as a candidate, or who is validly nominated as a candidate, at that election;

"disabled" ("*anabl*") has the same meaning as in section 28(13) of the 2024 Act;

"financial assistance" ("*cymorth ariannol*") has the same meaning as in section 31 of the 2024 Act;

"individual candidate" ("*ymgeisydd unigol*") means a candidate at a Senedd Cymru election other than a party list candidate;

"party list candidate" ("*ymgeisydd rhestr plaid*") means a candidate at a Senedd Cymru election included on a list of candidates submitted by a registered political party;

(**1**) S.I. 2025/864 (W. 150).

(c) mewn perthynas ag etholiad ar gyfer aelodau o gyngor cymuned yng Nghymru, person sy'n bwriadu sefyll fel ymgeisydd, neu sydd wedi ei enwebu'n ddilys fel ymgeisydd, yn yr etholiad hwnnw;

ystyr "ymgeisydd rhestr plaid" ("*party list candidate*") yw ymgeisydd mewn etholiad Senedd Cymru sydd wedi ei gynnwys ar restr o ymgeiswyr a gyflwynir gan blaid wleidyddol gofrestredig;

ystyr "ymgeisydd unigol" ("*individual candidate*") yw ymgeisydd mewn etholiad Senedd Cymru heblaw ymgeisydd rhestr plaid.

(2) Mae person wedi ei enwebu'n ddilys fel ymgeisydd mewn etholiad Cymreig—

(a) mewn perthynas ag etholiad Senedd Cymru, os yw ei enwebiad—

(i) fel ymgeisydd unigol yn yr etholiad hwnnw wedi ei dderbyn fel enwebiad dilys gan y swyddog canlyniadau yn unol â rheol 14 o Atodlen 5 i Orchymyn 2025;

(ii) fel ymgeisydd rhestr plaid yn yr etholiad hwnnw wedi ei dderbyn fel enwebiad dilys gan y swyddog canlyniadau yn unol â rheol 15 o Atodlen 5 i Orchymyn 2025;

(b) mewn perthynas ag etholiad ar gyfer aelodau o gyngor sir neu gyngor bwrdeistref sirol, os yw ei enwebiad fel ymgeisydd yn yr etholiad hwnnw wedi ei dderbyn fel enwebiad dilys gan y swyddog canlyniadau yn unol â rheol 10 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Prif Ardaloedd) (Cymru) 2021(**1**), neu reol 10 o Atodlen 2 iddynt;

(c) mewn perthynas ag etholiad ar gyfer aelodau o gyngor cymuned, os yw ei enwebiad fel ymgeisydd yn yr etholiad hwnnw wedi ei dderbyn fel enwebiad dilys gan y swyddog canlyniadau yn unol â rheol 10 o Atodlen 1 i Reolau Etholiadau Lleol (Cymunedau) (Cymru) 2021(**2**), neu reol 10 o Atodlen 2 iddynt.

"registered political party" ("*plaid wleidyddol gofrestredig*") means a party registered under Part 2 of the Political Parties, Elections and Referendums Act 2000(**1**);

"Welsh election" ("*etholiad Cymreig*") means an election for the return of a member of—

(a) Senedd Cymru;

(b) the council of a county or county borough in Wales;

(c) the council of a community in Wales.

(2) A person is validly nominated as a candidate at a Welsh election—

(a) in relation to a Senedd Cymru election, if their nomination—

(i) as an individual candidate at that election is accepted as being valid by the returning officer in accordance with rule 14 of Schedule 5 to the 2025 Order;

(ii) as a party list candidate at that election is accepted as being valid by the returning officer in accordance with rule 15 of Schedule 5 to the 2025 Order;

(b) in relation to an election of members of a county or county borough council, if their nomination as a candidate at that election is accepted as being valid by the returning officer in accordance with rule 10 of Schedule 1 or rule 10 of Schedule 2 to the Local Elections (Principal Areas) (Wales) Rules 2021(**2**);

(c) in relation to an election of members of a community council, if their nomination as a candidate at that election is accepted as being valid by the returning officer in accordance with rule 10 of Schedule 1 or rule 10 of Schedule 2 to the Local Elections (Communities) (Wales) Rules 2021(**3**).

(**1**) O.S. 2021/1459 (Cy. 374). Mae diwygiadau perthnasol wedi eu gwneud gan reoliadau 1(2), 2(2) a (3), a 12(a) o O.S. 2022/263 (Cy. 79).

(**2**) O.S. 2021/1460 (Cy. 375). Mae diwygiadau perthnasol wedi eu gwneud gan reoliadau 1(2), 2(5) a (6), a 12(a) o O.S. 2022/263 (Cy. 79).

(**1**) 2000 c. 41.

(**2**) S.I. 2021/1459 (W. 374). Relevant amendments are made by S.I. 2022/263 (W. 79) regulations 1(2), 2(2) and (3), and 12(a).

(**3**) S.I. 2021/1460 (W. 375). Relevant amendments are made by S.I. 2022/263 (W. 79) regulations 1(2), 2(5) and (6), and 12(a).

RHAN 2

SEFYDLU A GWEITHREDU'R CYNLLUN

Sefydlu'r cynllun

3.—(1) Mae'r Rheoliadau hyn yn sefydlu cynllun ar gyfer rhoi cymorth ariannol i ymgeiswyr anabl o dan adran 28(2) o Ddeddf 2024, y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "y cynllun cymorth ariannol".

(2) Mae Rhan 3 o'r Rheoliadau hyn yn cynnwys y cynllun cymorth ariannol.

Gweithredwr y cynllun

4.—(1) Rhaid i Weinidogion Cymru benodi person i weithredu'r cynllun cymorth ariannol, y cyfeirir ato yn y Rheoliadau hyn fel "gweithredwr y cynllun".

(2) Rhaid i weithredwr y cynllun fod ag—

(a) dealltwriaeth neu brofiad o amrywiaeth eang o anableddau;

(b) dealltwriaeth neu brofiad o'r effaith y mae anableddau yn ei chael ar rôl ymgeisydd sy'n sefyll i gael ei ethol yng Nghymru;

(c) dealltwriaeth o broses etholiadau Cymreig;

(d) prosesau gweinyddol ac ariannol ar waith i weithredu'r cynllun cymorth ariannol.

(3) Ni chaiff gweithredwr y cynllun fod yn berson a eithrir.

(4) Caniateir i benodiad o dan baragraff (1) gael ei wneud yn ddarostyngedig i delerau ac amodau a benderfynir gan Weinidogion Cymru.

(5) Caiff telerau ac amodau o dan baragraff (4) gynnwys trefniadau ar gyfer taliadau gan Weinidogion Cymru i weithredwr y cynllun at ddiben ariannu—

(a) unrhyw gymorth ariannol a delir o dan y cynllun cymorth ariannol, a

(b) costau gweithredu'r cynllun cymorth ariannol.

(6) Yn y rheoliad hwn, mae i "person a eithrir" yr un ystyr ag yn adran 29 o Ddeddf 2024.

PART 2

ESTABLISHMENT AND OPERATION OF THE SCHEME

Establishment of the scheme

3.—(1) These Regulations establish a scheme for the giving of financial assistance to disabled candidates under section 28(2) of the 2024 Act, referred to in these Regulations as "the financial assistance scheme".

(2) Part 3 of these Regulations constitutes the financial assistance scheme.

The scheme operator

4.—(1) The Welsh Ministers must appoint a person to operate the financial assistance scheme, referred to in these Regulations as "the scheme operator".

(2) The scheme operator must have—

(a) an understanding or experience of a broad range of disabilities;

(b) an understanding or experience of the impact that disabilities have on the role of a candidate standing for election in Wales;

(c) an understanding of the Welsh election process;

(d) administrative and financial processes in place to operate the financial assistance scheme.

(3) The scheme operator must not be an excluded person.

(4) An appointment under paragraph (1) may be made subject to terms and conditions determined by the Welsh Ministers.

(5) Terms and conditions under paragraph (4) may include arrangements for payments from the Welsh Ministers to the scheme operator for the purpose of funding—

(a) any financial assistance paid under the financial assistance scheme, and

(b) the costs of operating the financial assistance scheme.

(6) In this regulation, "excluded person" has the same meaning as in section 29 of the 2024 Act.

Swyddogaethau gweithredwr y cynllun

5.—(1) Rhaid i weithredwr y cynllun weithredu'r cynllun cymorth ariannol yn unol â gofynion y Rheoliadau hyn.

(2) Rhaid i weithredwr y cynllun—

(a) sefydlu'r meini prawf cymhwystra ar gyfer y cynllun cymorth ariannol yn unol â rheoliad 10;

(b) darparu gwasanaeth i—

(i) cynghori ymgeiswyr sy'n holi ynghylch cwmpas a pharamedrau'r cynllun cymorth ariannol, a

(ii) cynorthwyo ymgeiswyr gyda'r broses o wneud cais am gymorth ariannol o dan y cynllun cymorth ariannol;

(c) penderfynu a yw ceisiadau sydd wedi dod i law yn bodloni'r meini prawf cymhwystra a sefydlwyd yn is-baragraff (a);

(d) dyrannu'r cymorth ariannol y mae ymgeisydd yn gymwys i'w gael neu y gallai fod yn gymwys i'w gael;

(e) gwneud trefniadau ar gyfer talu a dosbarthu'r cymorth ariannol a gymeradwyir;

(f) sicrhau, cyn belled ag y bo'n rhesymol ymarferol, fod mesurau diogelu priodol yn cael eu rhoi ar waith i ddiogelu rhag unrhyw geisiadau twyllodrus a pheri na wneir unrhyw daliadau anghywir o'r cynllun cymorth ariannol;

(g) cymryd camau rhesymol i hyrwyddo'r cynllun a sut y gellir manteisio arno, ac i godi ymwybyddiaeth y cyhoedd o'r cynllun cymorth ariannol a sut y gellir manteisio arno.

Functions of the scheme operator

5.—(1) The scheme operator must operate the financial assistance scheme in accordance with the requirements of these Regulations.

(2) The scheme operator must—

(a) establish the eligibility criteria for the financial assistance scheme in accordance with regulation 10;

(b) provide a service to—

(i) advise enquiring candidates about the scope and parameters of the financial assistance scheme, and

(ii) assist candidates with the process of applying for financial assistance under the financial assistance scheme;

(c) determine whether applications received meet the established eligibility criteria in sub-paragraph (a);

(d) allocate the financial assistance to which a candidate is or may be eligible;

(e) make arrangements for the payment and distribution of the approved financial assistance;

(f) ensure, as far as reasonably practicable, that appropriate safeguards are put in place to protect from any fraudulent applications and avoid any erroneous payments being made from the financial assistance scheme;

(g) take reasonable steps to promote and raise public awareness of the financial assistance scheme and how it may be accessed.

Dirprwyo swyddogaethau a roddir i weithredwr y cynllun

6. Yn ddarostyngedig i reoliad 7(3), caiff gweithredwr y cynllun awdurdodi'r personau a restrir ym mharagraffau (a) a (b) i gyflawni unrhyw un neu ragor o'i swyddogaethau o dan y cynllun cymorth ariannol—

(a) aelod o staff;

(b) pan mai corff yw gweithredwr y cynllun, aelodau o'r corff neu bwyllgor i'r corff.

Delegation of functions conferred on scheme operator

6. Subject to regulation 7(3), the scheme operator may authorise the persons listed in paragraphs (a) and (b) to discharge any of its functions under the financial assistance scheme—

(a) a member of staff;

(b) where the scheme operator is a body, the members of the body or a committee of the body.

7.—(1) Caiff gweithredwr y cynllun sefydlu panel, y cyfeirir ato fel "panel gwneud penderfyniadau", i arfer swyddogaethau gweithredwr y cynllun a restrir yn rheoliad 5(2)(c) i (e).

7.—(1) The scheme operator may establish a panel, referred to as a "decision-making panel", to exercise the functions of the scheme operator listed in regulation 5(2)(c) to (e).

(2) Rhaid i aelodau a benodir i'r panel gwneud penderfyniadau—

(a) cael eu penodi drwy broses gwneud cais a benderfynir gan weithredwr y cynllun, a

(b) bodloni'r meini prawf a nodir yn rheoliad 4(2)(a) a (b) a (3).

(3) Pan fo gweithredwr y cynllun yn sefydlu panel gwneud penderfyniadau o dan baragraff (1), ni chaiff ddirprwyo'r swyddogaethau hynny i bersonau a restrir o dan reoliad 6.

Canllawiau

8.—(1) Rhaid i weithredwr y cynllun hefyd ddarparu canllawiau ynghylch gweithredu'r cynllun cymorth ariannol.

(2) Rhaid i'r canllawiau bennu'r wybodaeth a ganlyn—

(a) y meini prawf cymhwystra ar gyfer cais llwyddiannus am gymorth ariannol;

(b) y mathau o gymorth neu addasiadau, sy'n arwain at gostau ychwanegol i ymgeiswyr anabl, y caniateir cymeradwyo cymorth ariannol o'r cynllun cymorth ariannol ar eu cyfer;

(c) manylion ynghylch y broses gwneud cais ar gyfer y cynllun cymorth ariannol, gan gynnwys unrhyw ffurflen gais ac unrhyw amserlenni ar gyfer cyflwyno ceisiadau;

(d) manylion ynghylch y prosesau gwneud penderfyniadau a dyrannu, gan gynnwys yr amserlenni ar gyfer penderfynu ceisiadau a thalu a dosbarthu unrhyw gymorth ariannol a gymeradwyir;

(e) manylion ynghylch unrhyw broses gwyno neu adolygu mewn cysylltiad â phenderfyniadau a wneir mewn ymateb i geisiadau.

(3) Caiff y canllawiau gynnwys gwybodaeth arall sy'n cynorthwyo gweithredwr y cynllun i gyflawni ei swyddogaethau mewn perthynas â gweithredu'r cynllun cymorth ariannol.

(4) Rhaid i weithredwr y cynllun—

(a) cyhoeddi'r canllawiau ar ei wefan, a

(b) cymryd camau rhesymol i sicrhau bod y canllawiau yn hygyrch i ddefnyddwyr.

(2) Members appointed to the decision-making panel must—

(a) be appointed via an application process determined by the scheme operator, and

(b) meet the criteria set out in regulation 4(2)(a) and (b) and (3).

(3) Where the scheme operator establishes a decision-making panel under paragraph (1), it must not delegate those functions to persons listed under regulation 6.

Guidance

8.—(1) The scheme operator must also provide guidance about the operation of the financial assistance scheme.

(2) The guidance must specify the following information—

(a) the eligibility criteria for a successful application for financial assistance;

(b) the types of support or adjustments, which incur additional costs for disabled candidates, for which financial assistance from the financial assistance scheme may be approved;

(c) details of the application process for the financial assistance scheme, including any application form and timescales for submitting applications;

(d) details of the decision-making and allocation processes, including the timescales for determining applications and the payment and distribution of any approved financial assistance;

(e) details of any complaints or review process regarding decisions made in response to applications.

(3) The guidance may include other information that assists the scheme operator in carrying out its functions in relation to the operation of the financial assistance scheme.

(4) The scheme operator must—

(a) publish the guidance on its website, and

(b) take reasonable steps to ensure that the guidance is accessible to users.

RHAN 3

CYNLLUN YMGEISWYR ANABL

Y cynllun

9.—(1) Yn ddarostyngedig i baragraffau (2) i (4), rhaid i'r cynllun cymorth ariannol ddarparu cymorth ariannol tuag at gostau ychwanegol yr eir iddynt yn rhesymol gan ymgeisydd i gael cymorth neu addasiadau i oresgyn rhwystrau sy'n ymwneud â'i anabledd ac sy'n effeithio arno o ran cymryd rhan mewn etholiad Cymreig.

(2) Rhaid i unrhyw gostau ychwanegol yr eir iddynt gan ymgeisydd o dan baragraff (1) fod yn gysylltiedig ag anabledd yr ymgeisydd.

(3) Ni chaniateir talu cymorth ariannol a ddarperir o dan y cynllun ond mewn cysylltiad â chostau ychwanegol yr eir iddynt yn rhesymol am gymorth neu addasiadau a ddefnyddir yn ystod y cyfnod penodedig.

(4) Ni chaiff cymorth ariannol a ddarperir o dan y cynllun cymorth ariannol roi mantais i'r ymgeisydd wrth geisio swydd etholedig.

(5) Yn y rheoliad hwn, ystyr "cyfnod penodedig" yw o'r dyddiad y caiff ymgeisydd mewn etholiad Cymreig ei enwebu'n ddilys fel ymgeisydd yn yr etholiad hwnnw hyd at y diwrnod y cyhoeddir canlyniadau'r etholiad hwnnw.

Meini prawf cymhwystra ar gyfer cais llwyddiannus

10.—(1) Rhaid i'r meini prawf cymhwystra sy'n ofynnol gan reoliad 5(2)(a) gynnwys yr amodau a ganlyn—

(a) i wneud cais am gymorth ariannol o dan y cynllun cymorth ariannol, rhaid i ymgeisydd fod yn gymwys i fod yn ymgeisydd mewn etholiad Cymreig;

(b) i gael cymorth ariannol o dan y cynllun cymorth ariannol, rhaid i ymgeisydd fod wedi ei enwebu'n ddilys fel ymgeisydd mewn etholiad Cymreig;

(c) rhaid i ymgeisydd fodloni'r diffiniad o anabl a rhaid i unrhyw amhariad fod yn bresennol—

(i) pan fydd ymgeisydd yn gwneud cais am gymorth ariannol o dan y cynllun cymorth ariannol, a

(ii) yn ystod y cyfnod pan fydd ymgeisydd yn cael unrhyw gymorth ariannol o dan y cynllun cymorth ariannol.

PART 3

DISABLED CANDIDATES SCHEME

The scheme

9.—(1) Subject to paragraphs (2) to (4), the financial assistance scheme must provide financial assistance towards additional costs reasonably incurred by a candidate to obtain support or adjustments to overcome barriers relating to their disability that impact on their participation in a Welsh election.

(2) Any additional costs incurred by a candidate under paragraph (1) must be connected to the candidate's disability.

(3) Financial assistance provided under the scheme must only be paid in respect of additional costs reasonably incurred for support or adjustments used during the specified period.

(4) Financial assistance provided under the financial assistance scheme must not place the candidate at an advantage in pursuit of elected office.

(5) In this regulation, "specified period" means from the date a candidate at a Welsh election is validly nominated as a candidate at that election to the day that the results of that election are declared.

Eligibility criteria for successful application

10.—(1) The eligibility criteria required by regulation 5(2)(a) must include the following conditions—

(a) to apply for financial assistance under the financial assistance scheme, a candidate must be eligible to be a candidate at a Welsh election;

(b) to receive financial assistance under the financial assistance scheme, a candidate must be validly nominated as a candidate at a Welsh election;

(c) a candidate must meet the definition of disabled and any impairment must be present when—

(i) a candidate makes an application for financial assistance under the financial assistance scheme, and

(ii) during the period when a candidate is in receipt of any financial assistance under the financial assistance scheme.

(2) At ddibenion paragraff (1)(a), mae ymgeisydd yn gymwys i fod yn ymgeisydd mewn etholiad Cymreig os—

(a) mewn perthynas ag etholiad Senedd Cymru, nad yw wedi ei anghymhwyso rhag bod yn ymgeisydd i fod yn Aelod o'r Senedd o dan adran 16(A1) o Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006(**1**);

(b) mewn perthynas ag etholiad ar gyfer aelodau o gyngor sir, cyngor bwrdeistref sirol neu gyngor cymuned—

(i) yw ymgeisydd yn gymwys i gael ei ethol yn gynghorydd yn unol ag adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**2**), a

(ii) nad yw ymgeisydd wedi ei anghymhwyso rhag cael ei ethol yn gynghorydd—

(aa) gan unrhyw reswm a nodir yn adran 80A o Ddeddf Llywodraeth Leol 1972(**3**),

(bb) oherwydd unrhyw benderfyniad sydd wedi ei wneud o dan adran 79 o Ddeddf Llywodraeth Leol 2000(**4**), neu

(cc) am ddal swydd sydd o dan gyfyngiadau gwleidyddol fel y nodir yn adran 1(1) ac (1A) o Ddeddf Llywodraeth Leol a Thai 1989(**5**).

Y broses gwneud cais ac asesu

11.—(1) Rhaid i gais am gymorth ariannol o dan y cynllun cymorth ariannol—

(a) cael ei wneud ar y ffurf honno,

(b) cael ei gyflwyno yn y modd hwnnw, ac

(2) For the purposes of paragraph (1)(a), a candidate is eligible to be a candidate at a Welsh election if—

(a) in relation to a Senedd Cymru election, they are not disqualified from being a candidate to be a Member of the Senedd under section 16(A1) of the Government of Wales Act 2006(**1**);

(b) in relation to an election of members of a county or county borough council or a community council, a candidate—

(i) is qualified to be elected as councillor in accordance with section 79 of the Local Government Act 1972(**2**), and

(ii) is not disqualified from being elected as councillor—

(aa) by any reason set out in section 80A of the Local Government Act 1972(**3**),

(bb) because of any decision made under section 79 of the Local Government Act 2000(**4**), or

(cc) for holding a politically restricted post as set out in section 1(1) and (1A) of the Local Government and Housing Act 1989(**5**).

Application and assessment process

11.—(1) An application for financial assistance under the financial assistance scheme must—

(a) be made in such form,

(b) be submitted in such manner, and

(**1**) 2006 p. 32. Mewnosodwyd adran 16(A1) gan adran 29(2) o Ddeddf Senedd ac Etholiadau (Cymru) 2020 (dccc 1).

(**2**) 1972 p. 70. Mae adran 79 wedi ei diwygio gan adrannau 231, 235 a 237 o Ddeddf Diwygio Addysg 1988 (p. 40) ac Atodlen 13 iddi; paragraff 5(2) o Atodlen 3 i Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28); adran 17(4) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22) a pharagraff 43 o Atodlen 1 iddi; adran 19 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 (dsc 1); ac O.S. 1995/1948. Mae diwygiadau eraill wedi eu gwneud i adran 79 nad ydynt yn berthnasol yma.

(**3**) Mewnosodwyd adran 80A gan adran 20 o Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac fe'i diwygiwyd gan adran 62 o Ddeddf Etholiadau a Chyrff Etholedig (Cymru) 2024.

(**4**) 2000 p. 22. Mae adran 79 wedi ei diwygio gan adran 199 o Ddeddf Llywodraeth Leol a Chynnwys y Cyhoedd mewn Iechyd 2007 (p. 28); Rhan 5 o Atodlen 25 i Ddeddf Lleoliaeth 2011 (p. 20); ac O.S. 2022/372.

(**5**) 1989 p. 42. Mewnosodwyd is-adran (1A) gan baragraff 6 o Atodlen 5 i Ddeddf Llywodraeth Leol ac Etholiadau (Cymru) 2021 ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan O.S. 2021/1349 (Cy. 348).

(**1**) 2006 c. 32. Section 16(A1) was inserted by section 29(2) of the Senedd and Elections (Wales) Act 2020 (anaw 1).

(**2**) 1972 c. 70. Section 79 has been amended by sections 231, 235 and 237 of, and Schedule 13 to, the Education Reform Act 1988 (c. 40); paragraph 5(2) of Schedule 3 to the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 (c. 28); section 17(4) of, and paragraph 43 of Schedule 1 to, the Electoral Administration Act 2006 (c. 22); section 19 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 (asc 1); and S.I. 1995/1948. Other amendments have been made to section 79 which are not relevant here.

(**3**) Section 80A was inserted by section 20 of the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 and was amended by section 62 of the Elections and Elected Bodies (Wales) Act 2024.

(**4**) 2000 c. 22. Section 79 has been amended by section 199 of the Local Government and Public Involvement in Health Act 2007 (c. 28); Schedule 25, Part 5 to the Localism Act 2011 (c. 20); and S.I. 2022/372.

(**5**) 1989 c. 42. Subsection (1A) was inserted by paragraph 6 of Schedule 5 to the Local Government and Elections (Wales) Act 2021 and subsequently amended by S.I. 2021/1349 (W. 348).

(c) cynnwys yr wybodaeth honno,

a bennir gan weithredwr y cynllun.

(2) Rhaid i gais gael ei wneud o fewn unrhyw amserlenni a bennir gan weithredwr y cynllun.

(3) Rhaid i ymgeisydd ddarparu unrhyw ddogfennau eraill neu unrhyw wybodaeth arall y mae gweithredwr y cynllun yn gofyn amdanynt neu amdani pan ddaw'r cais i law neu ar ôl hynny.

(4) Rhaid i weithredwr y cynllun, o fewn yr amserlenni penodedig—

(a) gwrthod cais neu wrthod cymeradwyo cais, neu

(b) cymeradwyo cais yn llawn neu'n rhannol, yn ddiamod neu'n ddarostyngedig i'r amodau hynny a benderfynir ganddo, ac

(c) hysbysu'r ymgeisydd am ei benderfyniad.

(5) Rhaid i'r holl geisiadau gael eu hystyried a'u penderfynu ar sail ddienw.

(6) At ddibenion y rheoliad hwn, ystyr "a bennir" a "penodedig" yw wedi ei bennu mewn canllawiau a gyhoeddir gan weithredwr y cynllun yn unol â rheoliad 8.

(c) include such information,

as may be specified by the scheme operator.

(2) An application must be made within any timescales specified by the scheme operator.

(3) A candidate must provide any other documents or information as may be requested by the scheme operator on or after receipt of the application.

(4) The scheme operator must, within the specified timescales—

(a) reject or refuse to approve an application, or

(b) approve an application in whole or in part, unconditionally or subject to such conditions as it may determine, and

(c) notify the candidate of its decision.

(5) All applications must be considered and determined on an anonymised basis.

(6) For the purpose of this regulation, "specified" means specified in guidance published by the scheme operator in accordance with regulation 8.

Talu cymorth ariannol

12.—(1) Pan wneir cais o dan y cynllun cymorth ariannol cyn i ymgeisydd ("Y") gael ei enwebu'n ddilys mewn etholiad Cymreig, rhaid i weithredwr y cynllun gymryd unrhyw gamau sy'n ymarferol i wneud trefniadau i sicrhau bod unrhyw gymorth ariannol a gymeradwyir yn cael ei dalu i Y cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl y dyddiad y caiff Y ei enwebu'n ddilys.

(2) Ym mhob achos arall, rhaid i weithredwr y cynllun gymryd unrhyw gamau sy'n ymarferol i sicrhau—

(a) bod cais Y yn cael ei benderfynu cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl iddo ddod i law, a

(b) bod unrhyw gymorth ariannol a gymeradwyir yn cael ei dalu i Y cyn gynted ag y bo'n ymarferol ar ôl i gais Y gael ei gymeradwyo gan weithredwr y cynllun.

(3) Caiff gweithredwr y cynllun dalu'r cymorth ariannol a gymeradwyir—

(a) fel taliad uniongyrchol i gyflenwr y cymorth a gymeradwyir neu'r addasiadau a gymeradwyir, neu

(b) yn ddarostyngedig i baragraff (4), fel taliad uniongyrchol i Y y mae rhaid iddo wneud ei drefniadau ei hun i gael y cymorth a gymeradwyir neu'r addasiadau a gymeradwyir.

Payment of financial assistance

12.—(1) Where an application under the financial assistance scheme is made before a candidate ("C") is validly nominated at a Welsh election, the scheme operator must take such steps as are practicable to make arrangements to ensure that any approved financial assistance is paid to C as soon as practicable after the date on which C is validly nominated.

(2) In all other instances, the scheme operator must take such steps as are practicable to ensure that—

(a) C's application is determined as soon as practicable after it is received, and

(b) any approved financial assistance is paid to C as soon as practicable after C's application is approved by the scheme operator.

(3) The scheme operator may pay the approved financial assistance—

(a) as a direct payment to the supplier of the approved support or adjustments, or

(b) subject to paragraph (4), as a direct payment to C who must make their own arrangements to obtain the approved support or adjustments.

(4) Ni chaiff gweithredwr y cynllun dalu'r cymorth ariannol a gymeradwyir i Y o dan baragraff (3)(b) oni bai ei fod wedi ei fodloni—

(a) bod Y wedi mynd i'r gost, neu y bydd Y yn mynd i'r gost, yn briodol am y cymorth a gymeradwyir neu'r addasiadau a gymeradwyir;

(b) bod Y wedi cydymffurfio, neu y bydd Y yn cydymffurfio, ag un neu ragor o amodau'r cymorth ariannol a gymeradwyir.

(5) At ddibenion paragraffau (1) a (2), caiff gweithredwr y cynllun ei gwneud yn ofynnol i Y ddarparu gwybodaeth sy'n dangos tystiolaeth o wariant neu unrhyw gamau angenrheidiol sy'n ymwneud â'r cymorth ariannol a gymeradwyir.

(4) A scheme operator must not provide payment of the approved financial assistance to C under paragraph (3)(b) unless it is satisfied that C—

(a) has properly incurred or will properly incur the cost for the approved support or adjustments;

(b) has complied or will comply with any conditions of the approved financial assistance.

(5) For the purposes of paragraphs (1) and (2), the scheme operator may require C to provide information evidencing expenditure or any necessary actions relating to the approved financial assistance.

Hysbysiad o adennill taliad

13.—(1) Caiff gweithredwr y cynllun roi hysbysiad yn ei gwneud yn ofynnol ad-dalu unrhyw ran o unrhyw gymorth ariannol a dalwyd i ymgeisydd o dan y cynllun cymorth ariannol.

(2) Cyn rhoi hysbysiad o dan baragraff (1), rhaid i weithredwr y cynllun fod wedi ei fodloni—

(a) bod y cais a gymeradwywyd y gwnaed y taliad mewn cysylltiad ag ef, neu unrhyw wybodaeth ategol a ddarparwyd gan ymgeisydd mewn perthynas ag ef, wedi cynnwys gwybodaeth a oedd yn anghywir neu'n gamarweiniol,

(b) bod unrhyw gymorth ariannol a dalwyd wedi cael ei ddefnyddio at ddiben heblaw'r diben y cafodd ei dalu ar ei gyfer, neu

(c) na chydymffurfiwyd ag unrhyw un neu ragor o'r amodau y cymeradwywyd y cais yn ddarostyngedig iddynt, neu y talwyd y cymorth ariannol yn ddarostyngedig iddynt, neu na ellir cydymffurfio â hwy.

(3) Rhaid i hysbysiad a roddir o dan baragraff (1) ei gwneud yn ofynnol i'r ymgeisydd ad-dalu'r swm a bennir yn yr hysbysiad o fewn cyfnod a bennir felly, nad yw'n llai nag 28 o ddiwrnodau o'r dyddiad y dyroddir yr hysbysiad.

(4) Pan na chaiff unrhyw ran o'r swm a bennir mewn hysbysiad o dan baragraff (1) ei had-dalu o fewn cyfnod a bennir felly, caiff gweithredwr y cynllun adennill y swm sydd heb ei ad-dalu yn ddiannod fel dyled sifil.

Notice of recovery of payment

13.—(1) The scheme operator may give notice to require the repayment of any part of any financial assistance paid to a candidate under the financial assistance scheme.

(2) Before giving notice under paragraph (1), the scheme operator must be satisfied that—

(a) the approved application in respect of which the payment was made, or any supporting information provided by a candidate in relation to it, contained information that was inaccurate or misleading,

(b) any financial assistance paid was used for a purpose other than the purpose for which it was paid, or

(c) any condition subject to which the application was approved, or financial assistance was paid, has not been, or cannot be, complied with.

(3) A notice given under paragraph (1) must require the candidate to repay the sum specified in the notice within a period so specified, being no less than 28 days from the date on which the notice is issued.

(4) Where any part of the sum specified in a notice under paragraph (1) is not repaid within a period so specified, the scheme operator may recover the amount that remains outstanding summarily as a civil debt.

RHAN 4

COFNODION A GOFYNION ADRODD

Cofnodion a chyfrifon

14.—(1) Rhaid i weithredwr y cynllun gadw cofnod a chyfrif cyfredol o'r canlynol—

(a) crynodeb o'r defnydd o'r cynllun cymorth ariannol gan gynnwys—

(i) nifer y ceisiadau a ddaeth i law;

(ii) y math o gymorth neu addasiadau y gofynnwyd amdano neu amdanynt gan yr ymgeiswyr;

(iii) canlyniad y ceisiadau a aseswyd, gan gynnwys y cymorth neu'r addasiadau a'r costau a gymeradwywyd;

(iv) nifer y ceisiadau a dynnwyd yn ôl a'r rhesymau dros eu tynnu'n ôl;

(b) yr holl daliadau cymorth ariannol a wnaed, a pha un a wnaed y taliadau hynny yn uniongyrchol i ymgeisydd neu'n uniongyrchol i gyflenwyr y cymorth neu'r addasiadau ar gyfer yr ymgeisydd;

(c) asesiad o gost gweithredu'r cynllun.

(2) Rhaid i weithredwr y cynllun drefnu bod y cofnodion a'r cyfrifon y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) ar gael i'w hadolygu yn dilyn hysbysiad gan Weinidogion Cymru.

(3) O ran unrhyw gofnodion ac unrhyw gyfrifon a ddarperir i Weinidogion Cymru o dan baragraff (2)—

(a) rhaid iddynt fod mewn fformat dienw, a

(b) ni chânt gynnwys gwybodaeth y gellir adnabod ymgeisydd oddi wrthi fel derbynnydd y cymorth ariannol a gymeradwyir.

(4) Rhaid i weithredwr y cynllun gadw'r cofnodion a'r cyfrifon y cyfeirir atynt ym mharagraff (1) am 2 flynedd ar ôl diwrnod y pôl mewn etholiad Cymreig ac yna, oni chyfarwyddir fel arall drwy orchymyn gan yr Uchel Lys, Llys y Goron neu lys ynadon, rhaid iddo beri iddynt gael eu dinistrio.

Adroddiadau

15.—(1) Heb fod yn hwyrach na 6 mis ar ôl diwrnod y pôl mewn etholiad Cymreig, rhaid i weithredwr y cynllun gyhoeddi adroddiad.

(2) Rhaid i'r adroddiad gynnwys manylion ynghylch—

(a) sawl tro y cysylltwyd â gweithredwr y cynllun am gymorth ariannol;

PART 4

RECORDS AND REPORTING REQUIREMENTS

Records and accounts

14.—(1) The scheme operator must keep an up-to-date record and account of the following—

(a) a summary of usage of the financial assistance scheme including—

(i) the number of applications received;

(ii) the type of support or adjustments requested by the candidates;

(iii) the outcome of the assessed applications, including the support or adjustments and costs which were approved;

(iv) the number of withdrawn applications and reasons for withdrawal;

(b) all financial assistance payments made, and whether such payments were made directly to a candidate or directly to the suppliers of support or adjustments for the candidate;

(c) an assessment of the cost of operating the scheme.

(2) The scheme operator must make the records and accounts referred to in paragraph (1) available for inspection upon notice by the Welsh Ministers.

(3) Any records and accounts provided to Welsh Ministers under paragraph (2)—

(a) must be in an anonymised format, and

(b) must not include information capable of identifying a candidate as the recipient of the approved financial assistance.

(4) The scheme operator must retain the records and accounts referred to in paragraph (1) for 2 years after the day of the poll of a Welsh election and then, unless otherwise directed by order of the High Court, the Crown Court or a magistrates' court, must cause them to be destroyed.

Reports

15.—(1) No later than 6 months after the day of the poll of a Welsh election, the scheme operator must publish a report.

(2) The report must include details of—

(a) the number of approaches made to the scheme operator for financial assistance;

(b) nifer y ceisiadau a ddaeth i law, a gymeradwywyd ac a wrthodwyd;

(c) natur anableddau'r ymgeiswyr ynghyd â manylion ynghylch y cymorth sydd ei angen y gofynnwyd am gymorth ariannol ar ei gyfer;

(d) amgylchiadau pan gymeradwywyd cymorth ariannol ond nas talwyd o fewn amserlen a oedd yn galluogi'r ymgeisydd i gael ei gynorthwyo, a'r rhesymau dros hynny;

(e) swm y cymorth ariannol a ddarparwyd gan gynnwys dadansoddiad o'r taliadau a wnaed;

(f) yr achlysuron pan ddarparwyd hysbysiad gan weithredwr y cynllun yn ei gwneud yn ofynnol ad-dalu unrhyw ran o gymorth ariannol a dalwyd i berson o dan y cynllun cymorth ariannol;

(g) adborth gan ymgeiswyr am eu profiad o ddefnyddio'r cynllun cymorth ariannol.

(3) O ran yr adroddiad a gyhoeddir o dan baragraff (1)—

(a) rhaid iddo fod mewn fformat dienw;

(b) ni chaiff gynnwys gwybodaeth y gellir adnabod ymgeisydd oddi wrthi fel derbynnydd y cymorth ariannol a gymeradwyir;

(c) ni chaiff dorri deddfwriaeth diogelu data (o fewn ystyr Deddf Diogelu Data 2018(**1**)).

(b) the number of applications received, approved and rejected;

(c) the nature of the candidates' disabilities together with details of the support required for which financial assistance was requested;

(d) circumstances when financial assistance was approved but not paid within a timescale that enabled the candidate to be assisted, and the reasons why;

(e) the amount of financial assistance provided including a breakdown of the payments made;

(f) the occasions when notice was provided by the scheme operator requiring the repayment of any part of financial assistance paid to a person under the financial assistance scheme;

(g) feedback from candidates about their experience of using the financial assistance scheme.

(3) The report published under paragraph (1) must—

(a) be in an anonymised format;

(b) not include information capable of identifying a candidate as the recipient of the approved financial assistance;

(c) not contravene data protection legislation (within the meaning of the Data Protection Act 2018(**1**)).

RHAN 5

DIWYGIADAU CANLYNIADOL

Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983

16.—(1) Mae Deddf Cynrychiolaeth y Bobl 1983(**2**) wedi ei diwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 4A (treuliau etholiad: eithriadau cyffredinol), ar ôl paragraff 7A mewnosoder—

"**7B.** In respect of a local government election in Wales, a matter in respect of which expenses are paid or reimbursed in accordance with the financial assistance scheme established by the Welsh Elections Financial Assistance Scheme (Disabled Candidates) Regulations 2025 (S.I. 2025/897 (W. 157)) (to the extent that the matter does not fall within paragraph 7A)."

(**1**) 2018 p. 12.

(**2**) 1983 p. 2. Mewnosodwyd Atodlen 4A gan adran 27(5) o Ddeddf Gweinyddu Etholiadol 2006 (p. 22). Gweler Atodlen 2 i O.S. 2006/1972 am ddarpariaethau trosiannol. Amnewidiwyd paragraff 7A o Atodlen 4A gan erthygl 2 o O.S. 2019/352 ac fe'i diwygiwyd wedi hynny gan erthygl 5 o O.S. 2020/1320 (Cy. 291).

PART 5

CONSEQUENTIAL AMENDMENTS

Representation of the People Act 1983

16.—(1) The Representation of the People Act 1983(**2**) is amended as follows.

(2) In Schedule 4A (elections expenses: general exclusions), after paragraph 7A insert—

"**7B.** In respect of a local government election in Wales, a matter in respect of which expenses are paid or reimbursed in accordance with the financial assistance scheme established by the Welsh Elections Financial Assistance Scheme (Disabled Candidates) Regulations 2025 (S.I. 2025/897 (W. 157)) (to the extent that the matter does not fall within paragraph 7A)."

(**1**) 2018 c. 12.

(**2**) 1983 c. 2. Schedule 4A was inserted by section 27(5) of the Electoral Administration Act 2006 (c. 22). See Schedule 2 to S.I. 2006/1972 for transitional provisions. Paragraph 7A of Schedule 4A was substituted by article 2 of S.I. 2019/352 and subsequently amended by article 5 of S.I. 2020/1320 (W. 291).

Gorchymyn Senedd Cymru (Cynrychiolaeth y Bobl) 2025

17.—(1) Mae Gorchymyn 2025 wedi ei ddiwygio fel a ganlyn.

(2) Yn Atodlen 7 (treuliau etholiad: eithriadau cyffredinol), ar ôl paragraff 19 mewnosoder—

"**19A.** Mater y mae treuliau yn cael eu talu neu eu had-dalu mewn cysylltiad ag ef yn unol â'r cynllun cymorth ariannol a sefydlir gan Reoliadau Cynllun Cymorth Ariannol Etholiadau Cymreig (Ymgeiswyr Anabl) 2025 (O.S. 2025/897 (Cy. 157)) (i'r graddau nad yw'r mater yn dod o fewn paragraff 17)."

Senedd Cymru (Representation of the People) Order 2025

17.—(1) The 2025 Order is amended as follows.

(2) In Schedule 7 (election expenses: general exclusions), after paragraph 19 insert—

"**19A.** A matter in respect of which expenses are paid or reimbursed in accordance with the financial assistance scheme established by the Welsh Elections Financial Assistance Scheme (Disabled Candidates) Regulations 2025 (S.I. 2025/897 (W. 157)) (to the extent that the matter does not fall within paragraph 17)."

Jayne Bryant

Ysgrifennydd y Cabinet dros Lywodraeth Leol a Thai, un o Weinidogion Cymru
16 Gorffennaf 2025

Cabinet Secretary for Housing and Local Government, one of the Welsh Ministers
16 July 2025

©ⓗHawlfraint y Goron 2025

Argraffwyd a chyhoeddwyd yn y DU gan Y Llyfrfa Cyf dan awdurdod a goruchwyliaeth Saul Nassé, Rheolwr Llyfrfa Ei Fawrhydi ac Argraffydd Deddfau Senedd y Brenin.

© Crown copyright 2025

Printed and published in the UK by The Stationery Office Limited under the authority and superintendence of Saul Nassé, Controller of His Majesty's Stationery Office and King's Printer of Acts of Parliament.

ISBN 978-0-348-39715-4

£8.14

9 780348 397154